

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Effaith COVID-19: Sgiliau – Canfyddiadau Cynnar

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrth y Pwyllgor a yw'n casglu data canolog ar iechyd meddwl a llesiant prentisiaid. Os nad yw hyn yn cael ei wneud, sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro iechyd meddwl a llesiant prentisiaid?

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu'r data hyn. Mae iechyd a llesiant prentisiaid yn rhan allweddol o'r ymrwymadau sydd mewn contractau â darparwyr. Mae darparwyr wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â dysgwyr ac yn cynnig cymorth lle mae angen, gan gynnwys cymorth gydag iechyd meddwl a llesiant, ac mae rhagor o ganllawiau ar gymorth i ddysgwyr ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar yr Hyb.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ar gyfer y Pwyllgor y camau mae'n eu cymryd i gefnogi iechyd a llesiant prentisiaid sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi cael eu rhoi ar absenoldeb ffyrlo, gyda'r gwahanol heriau maent yn eu hwynebu.

Ymateb: Derbyn

Am fod prentisiaid yn gyflogeion, y cyflogwr sy'n bennaf gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant. Fodd bynnag, mae iechyd a llesiant prentisiaid yn rhan allweddol o'r rhwymedigaethau sydd ar ddarparwyr o dan gontractau â Llywodraeth Cymru. Mewn lleoliadau Iechyd a Gofal cymdeithasol mae darparwyr wedi cydnabod bod prentisiaid wedi bod o dan gryn straen yn y gweithle yn ystod y pandemig; maent wedi cydnabod na fyddai'n briodol rhoi pwysau ar brentisiaid i gwblhau asesiadau fframwaith. Byddem yn disgwyl i ddarparwyr gyflawni eu rhwymedigaethau i fonitro iechyd a llesiant prentisiaid sy'n gweithio ym maes Iechyd a gofal Cymdeithasol (a phrentisiaid eraill) yn ystod yr adeg hon.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori unrhyw brentis sydd wedi cael ei roi ar absenoldeb ffyrlo i gysylltu â'i ddarparwyr am gymorth. Mae gwefan Cymru'n Gweithio yn cynnwys dolenni i adnoddau dysgu a hyfforddi ar-lein, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, ar gyfer gweithwyr sydd wedi cael eu rhoi ar absenoldeb ffyrlo. Cafodd hyn ei ategu gan ymgyrch ehangach yn y cyfryngau i hyrwyddo hyfforddiant ar-lein ar gyfer gweithwyr sydd ar absenoldeb ffyrlo. Mae'r wefan yn cynnwys dolen i OpenLearn, sy'n darparu amrediad helaeth o dros 1,000 o gyrsiau byr, gan gynnwys adrannau ar reoli iechyd meddwl a llesiant, gwybodaeth am COVID-19 ar gyfer staff nyrsio a gofal iechyd, ac adnoddau sydd wedi cael eu llunio i helpu busnesau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod cyfleoedd profiad gwaith sy'n strwythuredig ac o ansawdd uchel, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig, yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer.

Ymateb: Derbyn

Mae'r sector preifat, partneriaid cymdeithasol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Llywodraeth yn gweithio ochr yn ochr i sicrhau bod economi Cymru yn parhau i dyfu, ac i ymateb i'r heriau sydd wedi codi o ganlyniad i effeithiau COVID-19, drwy ein Grwpiau Ymateb ar Gyflogaeth yng ngwahanol ranbarthau Cymru. Byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y ffrwd gyllid hon a chanolbwyntio ein cymorth ar bobl ifanc a grwpiau sy'n agored i niwed ledled Cymru.

Mae lleoliadau gwaith yn rhan bwysig o lawer o raglenni cymorth cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru. Yn benodol, ar gyfer grwpiau sy'n fwy agored i niwed sydd o dan anfantais mewn marchnad lafur gystadleuol, megis pobl ifanc, mae lleoliad gwaith perthnasol o ansawdd da yn ychwanegu elfen bwysig at y CV, a fydd yn cynyddu cyflogadwyedd yr unigolyn hwnnw.

Bydd ein rhaglen Hyfforddeiaeth flaenllaw yn cynyddu sgiliau cyflogadwyedd ac yn cynnig lleoliadau gwaith i bobl ifanc. Am resymau iechyd a diogelwch, gwnaethom atal dysgwyr rhag dychwelyd i leoliadau gwaith a ddaeth i ben oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein canllawiau mewn perthynas â dychwelyd i leoliadau gwaith mewn modd diogel, ac rydym yn gobeithio gallu ganiatáu i hynny ddigwydd o fis Awst ymlaen

Mae arweiniad, cyngor a mentora proffesiynol yn rhan bwysig o'n cymorth cyflogadwyedd ni, i sicrhau bod unigolion yn cael y cyfleoedd gwaith cywir a'r dysgu, yr hyfforddiant a'r sgiliau priodol sydd eu hangen arnynt. Mae Cymru'n Gweithio'n darparu'r cyngor a'r arweiniad hwn, ac mae wedi addasu'r ffordd mae'n gwneud hyn er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod y cyfyngiadau symud a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Bydd pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, yn gallu cael cymorth a mentora dwys drwy'r Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ar gyfer y Pwyllgor y ffordd mae'n bwriadu mynd i'r afael â phroblem ddifrifol diweithdra ymhlith pobl ifanc

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau enfawr mae pobl ifanc yn eu hwynebu, wrth iddynt chwilio am waith mewn marchnad lafur sydd wedi newid yn gyflym o ganlyniad i bandemig COVID-19. Rydym yn gwybod bod yr effaith ar bobl ifanc yng Nghymru wedi bod yn anghymesur, ac mae dirwasgiadau yn y gorffennol wedi dangos yr effaith andwyol hirdymor mae cyfnod o ddiweithdra yn ei chael ar ragolygon person ifanc o ran cael gwaith yn y dyfodol.

Y mis diweddf, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru Ymrwymiad COVID-19: Sgiliau a Chyflogadwyedd:

I gynnig cyngor a chymorth i bobl 16+ i ddod o hyd i waith, i fod yn hunangyflogedig neu i gael addysg neu hyfforddiant, gan gynnig cymhellion i gyflogwyr i'w hannog i recriwtio'r unigolion y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt fwyaf.

Fel rhan o'i hymrwymiad i ailgodi'n gryfach mae Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn sgiliau a chyflogadwyedd cynhwysfawr i liniaru effeithiau'r argyfwng ac i alluogi pobl ifanc i barhau â'u haddysg, i wella eu sgiliau a chael swydd newydd neu i ystyried dechrau busnes.

Os bydd angen, byddwn yn defnyddio hyd at £40 miliwn o'n Cronfa Cadernid Economaidd i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Byddwn yn rhoi cymorth i bobl ifanc i barhau â'u dysgu neu i gael swydd am y tro cyntaf. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth i bobl sy'n ddi-waith, neu sydd mewn perygl o gael eu diswyddo, i ddatblygu sgiliau newydd a chael swydd newydd, neu i ystyried dechrau busnes.

Byddwn hefyd yn defnyddio rhaglenni megis Go Wales a ReAct i roi cymhellion i gyflogwyr i'w hannog i gyflogi pobl ifanc a'r rheini sydd fwyaf tebygol o fod wedi dioddef effeithiau negyddol o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys menywod, pobl o gefndiroedd BAME (du, Asiaidd a lleiafrif ethnig), y rheini sydd mewn swyddi â chyflog isel a'r rheini sydd eisoes o dan anfantais yn y farchnad lafur.

Bydd cymhellion newydd wedi eu targedu'n ysgogi cyflogwyr i recriwtio prentisiaid newydd rhwng 16–24 mlwydd oed a phrentisiaid sy'n chwilio am swyddi newydd ar ôl cael eu diswyddo.

Bydd y pecyn cymorth llawn yn cynnwys (ond heb gael ei gyfyngu i):

- Cyngor ac arweiniad ar yrfaedd a chyflogaeth, hwyluso swyddi, ysgrifennu CVau a thechnegau cyfweiliad (Cymru'n Gweithio ac Addysg Bellach);
- Mentora dwys a chymorth i symud i addysg, gwirfoddoli, hyfforddiant neu gyflogaeth (Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol);
- Hyfforddiant a chymorth i gynyddu a datblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys lwfans hyfforddi (Hyfforddeiaethau);
- Darparu addysg bellach ar gyfer hyfforddiant llawn amser a rhan amser i helpu pobl ifanc i barhau â'u haddysg a bod yn fwy parod i gael swydd pan fydd y sefyllfa yn y farchnad lafur wedi gwella
- Cymhellion a chymorth ar gyfer busnesau sy'n recriwtio pobl ifanc a chymorth gyda hyfforddi ar gyfer recriwtiaid newydd drwy Brentisiaethau.
- Cymorth i raddedigion drwy raglen Go Wales, i helpu myfyrwyr a raddiodd yn ystod pandemig COVID-19 ond nad ydynt wedi llwyddo i gael swydd.
- Entrepreneuriaeth: Gweithdai, gwersyllfeydd bwt a chymorth gan fodolau rôl ar gyfer unigolion sy'n 24 mlwydd oed neu'n iau i'w helpu i ystyried dechrau busnes ac i oresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny.
- Hwb i'r cymorth pontio sydd ar gael ym maes Addysg Bellach i helpu pobl ifanc barhau â'u dysgu

- Ehangu Cyfrifon Dysgu Personol fel y gall pobl sydd mewn gwaith ond mewn perygl penodol o gael eu diswyddo gael mynediad at hyfforddiant a gwella eu sgiliau mewn sectorau sy'n tyfu.
- Drwy Fusnes Cymru, hyrwyddo pobl i fod yn hunangyflogedig ac i ddechrau busnesau, a defnyddio cronfeydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny.
- Hyrwyddo ymyriadau sy'n benodol i sectorau i fusnesau yn uniongyrchol drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg, i hybu sgiliau digidol ar draws pob sector a maes recriwtio.

Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda ni mewn partneriaeth i lunio ymateb cydgyssylltiedig i helpu pob ifanc yng Nghymru i gael swyddi, a chydweithio i gyrraedd a rhoi cymorth i'r rheini y mae'r angen mwyaf arnynt.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynlluniau cadarn i ategu'r sector sgiliau.

Ymateb: Derbyn

Mae gweithlu medrus o'r pwys mwyaf wrth fynd i'r afael â'r heriau mae busnesau ac unigolion yn eu hwynebu yn yr amgylchiadau presennol yn yr economi a'r farchnad lafur fyd-eang, o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bydd ein cynnig sgiliau yng Nghymru yn cefnogi ailstrwythuro economaidd a chreu swyddi yn y tymor hir mewn galwedigaethau a sectorau sy'n tyfu ar hyn o bryd, neu a fydd yn tyfu yn y dyfodol, fel technoleg ddigidol, ynni gwyrdd ac adeiladu.

Fel yr amlinellir yn ein Cynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y sector 16+, byddwn yn adeiladau cadernid y sector, fel y gall darparwyr dysgu addasu, er mwyn rheoli aflonyddu ar ddysgu ac i gefnogi llesiant dysgwyr a staff.

Mae cymorth ar gyfer y sector sgiliau ac addysg wedi'i rannu yn dri cham:

- Parhau â'u hastudio (Mawrth –Rhagfyr 2020);
- Adolygu – ystyried newidiadau i'r ddarpariaeth (Mai – Medi 2020);
- Adnewyddu – addasu'r cyllid i symud i unrhyw drefniadau newydd (rhwng Medi 2020 ac Ebrill 2021 i ddechrau, ac yn ddangosol drwy'r adolygiad o wariant yn hydref 2020 ar gyfer Mai 2021 – Ebrill 2023);
- Achub – sicrhau bod cyllid yn cael ei ddiogelu ar gyfer myfyrwyr a darparwyr.

Bydd y cymorth yn cynnwys cyllid ar gyfer ymgyrch hysbysebu a marchnata ddigidol yn ystod yr haf i dynnu sylw at yr hyn sydd ar gael yng Nghymru o ran datblygu sgiliau ac addysg, a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer cyflogwyr, ac unigolion sy'n chwilio am swydd.

Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn technolegau dysgu ar-lein a chyfunol i gynnal ansawdd profiad myfyrwyr o brifysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gweithle yng Nghymru.

Bydd cam adnewyddu'r datblygiad hefyd yn darparu ar gyfer datblygu cynigion ar gyfer y blynyddoedd ar ôl 2020–21, gyda phwyslais ar ddatblygu cyfalaf dynol drwy

fuddsoddi mewn sgiliau, addysg uwch, addysg bellach a mentrau i helpu unigolion i wella eu sgiliau, ailhyfforddi neu gael swydd am y tro cyntaf.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu fel mater o frys y cyllid a roddir i brentisiaethau yn ystod y flwyddyn nesaf, gan gynnwys amlinellu'r symiau y bwriedir eu tynnu i lawr o gyllid yr UE a'r Gronfa Ymladd COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi cyhoeddi contractau Prentisiaethau gwerth £115 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021. Mae hyn 5% yn llai na gwerth contractau y llynedd, ac mae'n adlewyrchu'r galw llai disgwylidig o ganlyniad i COVID-19.

Yn ogystal, fel rhan o'r Ymrwymiad COVID-19, byddwn yn defnyddio £16.4 miliwn o'r £39.673 miliwn o'r Gronfa Cadernid Economaidd i ysgogi recriwtio prentisiaid newydd ac i barhau i gyflogi 5,000 o brentisiaid, i wneud iawn am y niferoedd is o brentisiaid newydd a'r cynnydd mewn diswyddiadau yn ystod y flwyddyn hon. Byddwn yn defnyddio cymhellion wedi eu targedu i gefnogi Prentisiaethau newydd ar gyfer pobl ifanc, i helpu dechreuwyr a phobl mewn cyflogaeth i wella eu sgiliau mewn meysydd sy'n berthnasol i dwf busnesau megis STEM, datblygu proffesiynol a'r economi sylfaenol. Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi prentisiaethau a rennir sy'n cael eu hyrwyddo gan y sector, fel ffordd o barhau â dysgu prentisiaid presennol, gyda'r cyflogwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb – yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalent ar gyfer sectorau.

Bydd hefyd £3 miliwn i gefnogi Prentisiaethau Gradd ym meysydd Technoleg Ddigidol, TGCh a Gweithgynhyrchu Uwch i ddarparu llwybr amgen i unigolion ddatblygu sgiliau lefel uwch i fodloni anghenion cyflogwyr, a rolau cymorth ym maes Rhaglennu Meddalwedd, Seiberddiogelwch a Dadansoddi Data, ymhlith eraill.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn ar y rhybudd y bydd rhagor o swyddi fesul awr yn golygu llai o hyfforddiant sgiliau.

Ymateb: Derbyn

I liniaru'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau ac sy'n methu cael mynediad at raglenni hyfforddiant strwythuredig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol, sy'n ariannu pobl i ailhyfforddi er mwyn cynyddu eu cyflog a gwarchod eu swyddi yng ngwahanol ardaloedd Cymru. Bydd y cynllun peilot yn cael ei estyn o ddau goleg i 12, gyda'r posibilrwydd o estyn y cynllun ymhellach i gynnwys prifysgolion a rhaglenni dysgu yn y gweithle. Mae'r cynllun ar agor i bobl mewn cyflogaeth sy'n ennill llai na'r incwm canolrif (£26,000), a byddwn yn ehangu meini prawf cymhwysedd y rhaglen fel y bydd y rheini sydd ar gontractau dim oriau, staff asiantaeth, staff ar absenoldeb ffyrlo, pobl sydd mewn perygl o gael eu diswyddo ac unigolion sydd mewn swyddi y mae'r economi wedi cael effaith negyddol arnynt, er enghraifft, y rheini sy'n gweithio yn y sector lletygarwch neu yn yr economi sylfaenol.

Yn ogystal, am y flwyddyn gyntaf byddwn yn cefnogi cyflogwyr i ddatblygu sgiliau eu cyflogeion lle mae'n bosibl bod eu busnes wedi newid neu lle mae ffocws eu busnes wedi newid, ac mae angen i unigolion adnewyddu eu set o sgiliau mewn meysydd sydd â blaenoriaeth. Er enghraifft, lle mae angen sgiliau newydd ar gyflogeion ym maes technoleg ddigidol, marchnata, gweithgynhyrchu neu reoli. Byddai'r dull hwn o weithredu yn helpu cyflogwyr i baratoi at y dyfodol ac yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ddatblygu ac i dyfu eu busnesau.

Gofynnwyd hefyd i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fonitro effaith COVID-19 ar gyfleoedd hyfforddi yn eu sectorau â blaenoriaeth fel rhan o'u hadroddiadau COVID-19 ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur, sy'n cael eu llunio bob dau fis. Trafodir yr adroddiadau hyn o dan Argymhelliad 8 isod.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r ffordd y bydd yn cysylltu sgiliau â datblygu economaidd, cymorth i fusnesau, gwella busnesau a'r agenda gwaith teg.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, er mwyn integreiddio datblygu economaidd a datblygu busnes a sgiliau yn y dyfodol i ategu ac ysgogi'r adferiad, y dylai buddsoddiadau gael eu seilio ar bedwar cynnig:

- 1 Dulliau ar gyfer ailadeiladu cymunedau ac economi Cymru sy'n seiliedig ar LEOEDD.
- 2 Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar BOBL, sy'n trawsnewid cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, addysg bellach a mynd i'r brifysgol yn wyneb y cynnydd disgwylidig mewn diweithdra, tangyflogaeth ac anweithgarwch economaidd.
- 3 Ymyriadau GWYRDD a CHYFIAWN sy'n osgoi camau gweithredu a fyddai'n niweidiol i'r amgylchedd ac yn anfanteisiol i bobl sy'n agored i niwed.
- 4 Mentrau DIGIDOL a fydd yn sicrhau bod Cymru yn wlad lle mae pobl yn cael eu rhyddhau o wneud swyddi diflas ac undonog i wneud swyddi mai dim ond pobl sy'n gallu eu gwneud, wrth hefyd leihau anghydraddoldeb digidol.

Fel rhan o'r adferiad hwn byddwn yn cynyddu'r addysg a'r hyfforddiant ar gyfer swyddi mewn galwedigaethau a sectorau sy'n ehangu drwy wella sgiliau a datblygu sgiliau newydd. Mae'r Contract Economaidd yn nodi ac yn sicrhau ymrwymiad busnesau i ddyfodol carbon isel; i gynyddu lefel y sgiliau yn yr economi; ac i symud i ffwrdd o stigma economi sy'n gofyn am sgiliau isel ac yn talu cyflogau isel drwy gynyddu Gwaith Teg. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i sicrhau bod cyflogwyr ac undebau yn cymryd rhan.

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn darparu trosolwg strategol o sgiliau rhanbarthol; gan nodi blaenoriaethau yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur, wedi eu harwain gan anghenion cyflogwyr. Maent yn llunio cynlluniau strategol bob tair blynedd sy'n nodi blaenoriaethau rhanbarthol ac yn gweithio'n agos gyda strwythurau Dinas-ranbarth a Bergen Twf o fewn prosiectau Bergen Twf neu Fargen Ddinesig penodol. Yn ngoleuni COVID-19 mae gan y partneriaethau hyn rôl bwysicach byth wrth drafod anghenion cyflogwyr â'u rhwydweithiau cyflogwyr a chyrrff sy'n cynrychioli'r sector busnes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lunio adroddiadau bob dau fis i gasglu gwybodaeth feddal o wahanol ranbarthau Cymru, gan ddefnyddio safbwyntiau rhanddeiliaid y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, i ddarparu dealltwriaeth o effaith COVID-19 ar draws y sectorau a chlystyrau diwydiant. Mae'r adroddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni cyflogadwyedd, gwaith y Grwpiau Ymateb Rhanbarthol ar Gyflogaeth a gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun Cadernid COVID-19.

Mae'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn aelodau o Fwrdd Cyflogadwyedd a Sgiliau Cymru, sy'n adrodd ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd a sgiliau yn uniongyrchol i Gyngor Datblygu'r Economi. Mae'r strwythur llywodraethu hwn yn sicrhau persbectif strategol gwell ar faterion cyflogadwyedd a sgiliau ac yn atgyfnerthu cysylltiadau â busnesau, menter gymdeithasol a'r undebau llafur i ddylanwadu polisiau ar nifer o'r meysydd sy'n berthnasol i'r economi ehangach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio safbwyntiau gan bartneriaid cymdeithasol ac yn ehangach, a bydd hon yn elfen bwysig wrth inni ddatblygu ein syniadau ynghylch yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud i hwyluso'r adferiad cywir.